

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd
Llanfihangel-y-Creuddyn `ar Nos Lun 27ain Mehefin, 2016 am 7.30 y.h.**

Presennol:

Cyng. Sh Edwards (Cadeirydd)

Cyng. T.A.G. Davies

Cyng. E. Lewis

Cyng. L.L. Owen

Cyng. H.M. Evans

Cyng. C. Lloyd-Morgan

Cyng. R. Jones

Cyng. B. Jenkins

Cyng. J.J. Powell

Ymddiheuriadau

Cyng. A. Evans, Cyng. J. George

Materion Personol

Dim materion i'w nodi.

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 16eg Mai, 2016 fel cofnod cywir.

Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. E. Lewis.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Asesiad Risg ac Asedau

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Derbyniwyd ddiweddariad gan Swyddog Cyngor Sir Ceredigion yn nodi y gwneir ychydig o waith gan berchnogion tai i geisio datrys y broblem arogl a bod yna ddau dŷ yn parhau gyda'r angen i'w profi gan y Cyngor Sir. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir ymhellach i ddyfalbarhau gyda'r gweithredu hyn ac i ymholi am sefyllfa carthffosiaeth gyda rhai tai penodol yn y Pentref.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ymhellach gan ofyn am wybodaeth am dai penodol

Coed ar y B4340 Llechwedd Ddyrys

Dim pellach i'w adrodd a chydabuwyd y gwnaed gymaint ag y medrir i sicrhau diogelwch y cyhoedd ac i gadw llygad ar y sefyllfa.

Sefyllfa Band Llydan o fewn yr Ardal

Ni dderbyniwyd manylion pellach o amserlen pryd y disgwylir gwellhad mewn gwasanaeth o fewn yr ardal. Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda BT am wybodaeth.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir**Dŵr ger y Gors**

Derbyniwyd gadarnhad gan swyddog o'r Cyngor Sir fod cyllid wedi sicrhau ar gyfer system ddraenio ar y ffordd C1052 gyferbyn â Thafarn y Gors, ble y gobeithir bydd yn lliniaru'r broblem o lifogydd a brofir yn y lleoliad hwn. Cytunwyd i barhau i gadw'r eitem ar agenda Cyfarfodydd y Cyngor Bro

Ffos o Brenan i Lwynbrain

Y broblem yn parhau.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir i nodi bod y broblem yn gwaethygu.

Safle We

Y Clerc i ddilyn Ian gyda Nigel Callaghan.

Rhiw Dolgwybedig

Cyfeiriwyd at ohebiaeth ddiweddar gan y Cyngor Sir yn nodi y cwblheir ymchwiliad o'r ffordd ac y nodwyd rhai diffygion a flaenoriaethwyd i'w hychwanegu at raglen gwaith y Cyngor Sir. Bydd rhan hon o'r ffordd hefyd wedi'i chynnwys yn y rhaglen arwynebu ffyrdd am 2017/18.

Yr eitem i barhau ar yr agenda.

Ffordd Uchaf Llanafan

Adroddodd Cyng. L. Owen fod y gwaith mewn llaw a bod contractwr wedi dechrau ar y gwaith.

Golau Stryd gyferbyn a'r Hen Gapel ger y Gors

Derbyniwyd gadarnhad gan y Cyngor Sir yr archebwyd golau newydd i'r safle a bod y mater wedi'i flaenoriaethu fel mater o frys. Nodwyd yn yr ohebiaeth y bu rhaid ail-ddodi golau newydd ar y safle ddwy waith yn ddiweddar oherwydd niwed, a phe ddigwyddir eto bydd y Cyngor Sir yn ystyried ail-feddwl am leoliad y golau.

Maes y Felin, Llanafan

Dim diweddariad. Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddog Heddlu a Swyddog Tai Ceredigion.

Bin Halen, Cnwch Coch

Derbyniwyd gadarnhad gan y Cyngor Sir yn nodi y bydd bin halen newydd wedi lleoli yng Nghnwch Coch yn ystod yr Hydref.

Materion Cyllidol**Cyfrifon 2015/16**

Adroddodd y Clerc fod Gwyn Evans wedi cwblhau cyfrifon 2015/16 fel Archwilydd Mewnol ar ran y Cyngor Cymuned ac y byddid yn awr yn trosglwyddo'r cyfrifon i'r Archwilydd Allanol, Grant Thornton. Ar 31ain Mawrth 2016 roedd £6,567.59 mewn llaw gyda'r Cyngor Bro. £4,554.20 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a

£1,985.71 yn y Cyfrif. Cytunwyd i dalu Mr. Gwyn Evans £35.00 am ei wasanaeth. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans.

580

Llyfr Cyfrifon

Nododd y Clerc fod y llyfr cofnodi cyfrifon yn dod i ben a bod angen llyfr cyfrifon newydd. Cytunwyd yn unfrydol bod y Clerc yn archebu llyfr newydd.

Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin

Derbyniwyd lythyr o werthfawrogiad wrth yr uchod am y nawdd ariannol diweddar o £500 tuag at gostau rhedeg y Maes Chwarae.

Dwr Cymru a Chysylltu gyda System Garthffosiaeth yn Llanafan

Adroddwyd fod y gwaith yn parhau a chyfeiriwyd gan gynghorwyr lleol fod y gweithwyr ar y safle wedi bod yn ystyriol dros ben o drigolion lleol yn ystod y gwaith. Cyfeiriwyd at y ffaith bod y ffordd drwy Llanafan wedi bod ar gau yn ystod yr Etholiadau diweddar ac fe ad-drefnwyd y gweithwyr eu rhaglen gwaith er mwyn sicrhau i'r ffordd fedru bod rhannol ar agor ar y dydd er mwyn galluogi preswylwyr gyrraedd y bwth etholiadau heb orfod teithio'r ffordd amgen ar y diwrnodau hynny.

Derbyniwyd ymateb gan Asiantaeth yr Amgylchedd i ymholiad a chonsyrn y Cyngor Bro am sefyllfa cysylltu dau eiddo yn Llanafan i'r system Garthffosiaeth. Un eiddo sy'n 'duty property' ar llall yn 'non-duty property'. O ran y 'non-duty property' ni fydd problem iddynt gysylltu ond o ran y 'duty property' nid oes orfodaeth i gysylltu ond pe byddai problemau yn dod i'r amlwg o ran system garthffosiaeth yn y dyfodol bydd y cost cysylltu yn sylweddol fwy nag a fu yn awr.

Drain ger Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn.

Adroddwyd fod y gwaith ar y drain wedi cwblhau a gwerthfawrogir bod y gwaith wedi gwblhau, er mor hir y cymerodd y Cyngor Sir i weithredu yn y lle cyntaf.

Ymgynghori ar amryw o newidiadau arfaethedig i'r terfynau cyflymder ar Ffyrdd Sirol yng Ngheredigion

Derbyniwyd ymateb gan Swyddog y Cyngor Sir yn nodi nad oedd yn ymarferol i ddodi arwydd terfynau cyflymder ar y man tynnu mewn uwchben i riw Sarnau oherwydd roedd yn rhy bell o ffiniau pentref Llanfihangel-y-Creuddyn. Wedi trafodaeth faith cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu nol gyda'r Swyddog yn parhau i ddatgan yr angen am ddechrau'r terfynau cyflymder wrth y safle tynnu fewn fel y dechreuir mynd lawr y rhiw tuag at y Pentref. Y Clerc i ymateb gan ofyn beth oedd pwrpas ymgynghori gydag aelodau Cynghorau Bro yn y lle cyntaf ac yna trigolion lleol os nad oedd y Cyngor Sir mynd i gymryd sylwadau i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad.

GOHEBIAETH

Elusen Amaethyddol, Royal Agricultural Benevolent Institution (RABI) Ceredigion Derbyniwyd cais am nawdd ariannol wrth y Cyngor Bro ar gyfer yr uchod. Trafodwyd y cais a chytunwyd i dderbyn y llythyr ond i beidio gwneud cyfraniad y tro hyn.

Pro Fforma Cysgodfannau a Seilwaith Bysiau

Gohebiaeth wrth Gyngor Sir Ceredigion yn nodi fod y Cyngor Sir yn cynnal adolygiad fesul cam o'r seilwaith bysiau ar draws Ceredigion ac yn gofyn am gymorth y Cyngor Bro i gwblhau ffurflen gwybodaeth i nodi'r hyn a fodolir o fewn yr ardal.

UNRHYW FATER ARALL

Cyfeiriwyd fod angen adnewyddu'r polion du a gwyn gyferbyn a Thafarn y Gors, wrth ymyl y safle bus. Nodwyd fod y polion wedi eu lleoli yno rhai blynyddoedd yn ôl er mwyn diogelwch y plant ac oedolion oedd yn disgyn o'r bws. Erbyn nawr roedd y polion wedi diflannu ac roedd cerbydau yn dueddol o barcio ar y porfa gwyrdd wrth y polyn safle bws ac ar fynediad ffordd C1052 yn y lleoliad dan sylw a oedd yn peryglu'r cyhoedd.

Ar yr un mynedfa adroddwyd fod angen torri coed ar y fynedfa gyferbyn â Thafarn y Gors sy'n amharu gweledd wrth ymuno gyda'r ffordd.

Adroddwyd fod Bryan Thomas, Swyddog o'r Cyngor Sir wedi gwneud trefniadau brys i dorri coed ger mynedfa ffordd ger Cwmseiri ble roedd coed yn amharu gweledd wrth ymuno gyda'r A4120 a gwerthfawrogi'r y gweithredu brys yma.

Torri Cloddiau

Trafodwyd y sefyllfa am y diffyg torri cloddiau o fewn ardal Cyngor Bro Trawsgoed ond sylwir fod yna gloddiau yn cael eu torri lawer ynghynt mewn ardaloedd cyfagos. Y Clerc a'r Aelod Lleol i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw fod angen torri cloddiau ar frys o fewn yr ardal yma, yn enwedig ar y ffyrdd ble mae bysiau yn teithio.

Draeniau

Yr angen i dynnu sylw'r Cyngor Sir at nifer fawr o ddraeniau sydd wedi blocio yn yr ardal gan gynnwys yr isod sydd angen sylw brys:

Drain ger Cwmseiri wedi gorlenwi ond hefyd wedi suddo i mewn i'r ffordd.

Grid wedi dod allan o'r Culvart yng Ngwm Rhydyfelin gan adael twll yn y ffordd.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 5ed Medi, am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne Llanafan.